**Julie Morgan AC/AM**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwasanaethau Dechrau'n Deg
Gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf
Gwasanaethau Gofal Plant
Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd

8 Ebrill 2020

Annwyl gyfeillion,

Rydyn ni'n byw ac yn gweithio drwy gyfnod na welsom ei debyg o'r blaen ac yn wynebu heriau anferth oherwydd pandemig y coronafeirws. Mewn cwta wythnosau mae bywydau holl ddinasyddion Cymru wedi newid yn ddramatig. Mae ysgolion a busnesau wedi cau ac mae'r rhan fwyaf ohonom yn gweithio o'r cartref neu'n aros yno.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch ichi o waelod calon am barhau i weithio mor galed ac am eich proffesiynoldeb wrth fynd ati i gyfenwi ein rhaglenni Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf yn ogystal â darparu gwybodaeth a gwasanaethau gofal plant hanfodol i deuluoedd. Mae'r gefnogaeth rydych chi'n ei chynnig bob amser yn amhrisiadwy. Ond mewn argyfwng fel hyn, mae ein plant, ein pobl ifanc a'r teuluoedd yn dibynnu ar eich gwasanaethau yn fwy nag erioed. Dw i'n hynod o ddiolchgar ichi am y ffordd rydych chi wedi ymateb i sefyllfa mor anodd a llawn straen.

Hoffwn dalu teyrnged i'n darparwyr gofal plant a lleoliadau Dechrau'n Deg, yn arbennig felly'r rhai sydd wedi gwneud y fath ymdrechion i barhau i fod ar agor i ofalu am blant gweithwyr hanfodol yn ogystal ag er mwyn y plant sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau. Ar adeg mor arbennig o anodd, mae darparu gofal diogel i'r rhai sydd ei angen wedi chwarae rhan fawr yn ein hymateb i COVID-19. Rydyn ni yn gwneud popeth yn ein gallu i'ch cefnogi chi yn eich gwaith.

Rydym yn ailgyfeirio'r cyllid sydd ar gael drwy'r Cynnig Gofal Plant ar gyfer Cymru, er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd y teuluoedd sydd angen cymorth fwyaf ar hyn o bryd, gan wneud yn siŵr bod gofal plant ar gael i blant gweithwyr hanfodol a phlant sy'n agored i niwed. O dan ein cynllun newydd, bydd gan bob gweithiwr hanfodol hawl i gael gofal a ariennir ar gyfer eu plant oedran cyn ysgol. Mae angen i'r cynllun fod yn gwbl weithredol cyn gynted â phosibl, felly byddwn yn rhoi hyblygrwydd i'n Hawdurdodau Lleol i reoli'r ddarpariaeth a'r galw yn lleol. Bydd Cwlwm, y corff sy'n cynrychioli'r sector yn cynnal arolwg gweithlu i nodi ymarferwyr gofal plant sy'n fodlon gweithio o leoliadau amgen, fel bo'r angen, ac mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn fodlon gweithio gyda chi i gyd i newid modelau a datganiadau diben lleoliadau fel bo'r angen.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i dalu darparwyr gofal plant am yr oriau Cynnig Gofal Plant a fyddai wedi'u defnyddio gan rieni yn arferol, a hynny am gyfnod o dri mis. Mae llawer o gamau eraill ar gyfer diogelu busnesau wedi cael eu cyhoeddi a fydd hefyd yn helpu darparwyr gofal plant yn y cyfnod anodd hwn.

Rwy'n sylweddoli y bydd gennych lawer o gwestiynau ynghylch sut i ddarparu gwasanaethau a chydymffurfio ar yr un pryd â'r rheolau llym a luniwyd i arafu ymlediad y coronafeirws. I'ch helpu â materion gweithredol, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau COVID-19 mewn cysylltiad

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

â Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a'r Cynnig Gofal Plant. Bydd rhagor o ganllawiau'n cael eu cyhoeddi'n fuan ynghylch y Grant Plant a Chymunedau ynghyd â dogfen Cwestiynau Cyffredin ar gyfer Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf. Bydd cyfarwyddiadau a chanllawiau yn parhau i gael eu darparu drwy'r gymuned arfer ar-lein: **ExChange: Family and Community.** Nid yw'r wybodaeth ar ExChange ar gael yn Gymraeg ar hyn o bryd.

Hoffwn ailddatgan rhai o brif bwyntiau'r canllawiau ar gyfer Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf:

- Rhaid cyflenwi gwasanaethau mewn dull sy'n gyson â'r cyngor gwyddonol arbenigol a ddarperir gan Lywodraethau Cymru a'r DU.[1] Bydd hyn yn golygu y bydd angen ichi gynnig mwy o wasanaethau drwy gysylltu ar y ffôn a'r cyfryngau cymdeithasol neu ar-lein.
- Mae'r gwasanaethau hyn yn parhau i fod yn hollbwysig i deuluoedd ledled Cymru, felly, yn y cyfnod hwn, rydym yn disgwyl i bob ymdrech gael ei gwneud i gysylltu â chynifer o deuluoedd â phosibl gan ddefnyddio dulliau priodol.
- Mesurau dros dro yw'r rhain, mewn ymateb i amgylchiadau cwbl anarferol. Byddant mewn grym am dri mis i ddechrau, i gychwyn ar unwaith, a byddwn yn adolygu a yw'r angen amdanynt yn parhau yn gyson wedi hynny. Dylai rhaglenni Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf fynd yn ôl at gyflenwi rhaglen lawn o weithgareddau pan fydd y trefniadau arferol yn ailgychwyn.
- Bydd Llywodraeth Cymru'n cymryd y tarfu hwn ar eich gwaith i ystyriaeth wrth adolygu perfformiad mewn perthynas â llwythi gwaith a CAP, sef y terfyn uchaf ar nifer y plant y gellid eu cefnogi yn ogystal â'r swm o arian y gall Awdurdod Lleol ei wario, yn erbyn lefelau perfformiad y cytunwyd arnynt.
- Yn y cyfamser, bydd angen ichi ddefnyddio eich crebwyll proffesiynol i weld sut y gallwch gefnogi grwpiau sydd mewn perygl neu sy'n agored i niwed (fel y rhai ag anghenion diogelu a/neu blant ag anableddau).

Roedd yn bleser clywed am rai o'r dulliau arloesol rydych chi'n eu defnyddio i barhau i gyflenwi gwasanaethau. Mae llawer o ymarferwyr wedi gwneud yn fawr o dechnoleg ac maen nhw'n cysylltu â theuluoedd drwy'r cyfryngau cymdeithasol ar gyfer rhai gweithgareddau, fel therapi teuluol a chymorth magu plant gan ddefnyddio Skype. Mae'n hanfodol fod teuluoedd yn ymwybodol bod gwasanaethau'r awdurdodau lleol yn dal i fod ar gael iddynt, hyd yn oed os oes llai o gapasiti yma ac acw, ac mae'n rhaid inni sicrhau nad ydym yn colli golwg o'n teuluoedd mwyaf bregus.


Bydd fy swyddogion yn parhau i weithio gyda chi ac i'ch helpu ag unrhyw bryderon neu broblemau sydd gennych. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau pellach ynghylch rhaglenni at flwch post y rhaglen berthnasol: familiesfirst@llyw.cymru neu FlyingStart2@llyw.cymru

Rhaid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch gwariant ac amodau a thelerau y Grant Plant a Chymunedau at FlexibleFunding@llyw.cymru

Ar gyfer ymholiadau ynghylch Gofal Plant, defnyddiwch TrafodGofalPlant@llyw.cymru

Ar ran Llywodraeth Cymru, diolch ichi unwaith eto am bopeth rydych chi'n ei wneud i helpu rhai o'n teuluoedd mwyaf difreintiedig drwy'r cyfnod anodd hwn.

Yn gywir



**Julie Morgan AC/AM**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services

[1] https://www.gov.uk/government/publications/covid-19-guidance-on-social-distancing-and-for-vulnerable-people/guidance-on-social-distancing-for-everyone-in-the-uk-and-protecting-older-people-and-vulnerable-adults